PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Ionawr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.C. Bird, B.E. Brooks, C.A. Cave, S.M. Hanks, R. Nugent-Finn, A.C. Parker, S.D. Perkes and L.O. Rowlands.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio), C. Ireland (Cyngor Dinasyddion Caerdydd a Chynrychiolydd y Fro), G. Doyle, W. Hennessy ac V. John (Cynrychiolwyr Gweithgorau / Panel Tenantiaid).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y H. Smith (Cynrychiolwyr Gweithgorau / Panel Tenantiaid)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant yn Eitem 6 ar yr Agenda – Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid Drafft 2021-2026. Natur ei diddordeb oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 18.3.3(b)(ii)(A) y Cyfansoddiad. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd C.A. Cave fuddiant yn Eitem 6 ar yr Agenda – Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid Drafft 2021-2026. Natur ei buddiant oedd ei bod yn lesddeiliad. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn niweidiol yn unol â pharagraff 18.3.3(b)(ii)(A) y Cyfansoddiad. Felly, arhosodd y Cynghorydd Cave yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

EITEM AGENDA 4. UNED BENTHYCA ARIAN ANGHYFREITHLON CYMRU –

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad ar Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru.

Rhesymau dros yr argymhellion

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. STRATEGAETH DDRAFFT AR DAI LLEOL 2021 – 2026 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar Strategaeth Dai Leol Ddrafft 2021 - 2026 cyn i'r Strategaeth derfynol gael ei chyfeirio at y Cyngor Llawn i gael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

Caniatáu i'r Cabinet wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ar y Strategaeth derfynol cyn cyfeirio at y Cyngor Llawn.

EITEM AGENDA 6. STRATEGAETH DRAFFT CYFRANOGIAD TENANTIAID A PHRESWYLWYR PRYDLES 2021-2026 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu, fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer y Strategaeth a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, cyn cytuno ar y Strategaeth derfynol.

Rhesymau dros yr argymhellion

Caniatáu i'r Cabinet wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ar y Strategaeth derfynol, yn dilyn ymgynghoriad pellach.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AM Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD 2021 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. DIWEDDARIAD AR WASANAETH DAARC (CYDLYNYDD ASESU A CHYFEIRIO CAM-DRIN DOMESTIG) (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi perfformiad y gwasanaeth DAARC ar gyfer y cyfnod.

(2) Nodi'r gwaith a wnaed i wella gwasanaethau i'r rhai y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn y Fro.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 3YDD CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) -

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i C yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Atodlen Blaenraglen Waith Flynyddol ddiweddaraf y Pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad D a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.